



Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy

Ysgol Ardal Newydd Caerhun a Threfriw

Mai 2019

‘YSGOL DYFFRYN YR ENFYS’

Dodrefn a Llawr yn cyrraedd y safle

Mae pob dosbarth wedi'i addurno ac mae ganddynt god lliw ac yn y broses o gael eu dodrefnu.

Mae staff wedi ymweld â'r safle i weld eu dosbarthiadau unigol, lolfa'r staff a'r gegin/neuadd.



Bu'r tîm arlwygo yn edrych ar y gegin, ac yn ystod y cyfnod adroddiad nesaf bydd yr offer TG yn cael ei osod a'i gomisiynu.

Gosodwyd y llif oleuadau ar gyfer y man aml gemau – adnodd y gobeithiwn y bydd y gymdeithas yn gwneud defnydd ohono y tu allan i oriau ysgol.

Mae'r tu allan bron a'i orffen – lle diogel, llawn hwyl i blant chwarae.



Ewch i:

www.conwy.gov.uk/caerhunandtrefriw

i weld lluniau o'r gwaith adeiladu misol yn Ysgol Dyffryn yr Enfys gan gynnwys cylchlythyrau a dogfennau statudol:

